# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2016

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Robert G Parry OBE FRAgS (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Lewis Davies, R Dew, Jim Evans, Ann Griffith, John Griffith, K P Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes, W T Hughes, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, G O Jones, H E Jones, R Ll Jones, R.Meirion Jones, Jeffrey M.Evans, Alun W Mummery, Dylan Rees, J A Roberts, Nicola Roberts, Alwyn Rowlands, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams a P S Rogers.

**WRTH LAW:**
Prif Weithredwr,
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes),
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Cymuned a Gwella Gwasanaeth),
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,
Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,
Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd,
Pennaeth Gwasanaethau Plant (ar gyfer eitem 9),
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitem 9),
Rheolydd Gwasanaethau Cyfrifo (BHO) (ar gyfer eitemau 7 a 8),
Rheolwr Cyllid (CK) (ar gyfer eitemau 7 a 8),
Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (DR) (ar gyfer eitem 11),
Swyddog Pwyllgor (MEH).

**HEFYD YN BRESENNOL:** Neb

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr D R Hughes, T Ll Hughes, A M Jones a Richard Owain Jones.

Oherwydd absenoldeb yr Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Richard Owain Jones, penderfynodd y Pwyllgor ethol Is-Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn ac etholwyd y Cynghorydd G. O. Jones i'r swydd honno.

### 1. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfodydd Cyngor Sir Ynys Môn fel a ganlyn:

- Mai 12fed, 2016 (10.30 am)
- Mai 12fed, 2016 (2.00 pm)
- Mai 26ain, 2016 (Arbennig)

DRAFT

## 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

## 3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau canlynol:

- Llongyfarchiadau i'r cystadleuwyr o Ynys Môn a fu'n llwyddiannus yn Sioe Frenhinol Cymru, Sioe Môn a'r Eisteddfod Genedlaethol yn ddiweddar;
- Llongyfarchiadau i'r disgyblion ysgol uwchradd hynny a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau TGAU a Lefel A;
- Llongyfarchiadau i aelodau staff y Cyngor sydd wedi llwyddo yn eu harholiadau ac sydd wedi cymhwyso yn eu priod feysydd;
- Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Nicola Roberts sydd wedi graddio o Brifysgol Bangor yn ddiweddar;
- Llongyfarchiadau i Dîm Pêl-droed Rhieni o Amlwch a enillodd y gystadleuaeth 'Codi Gôl' a welwyd ar S4C yn ddiweddar;
- Llongyfarchiadau i Glesni Tegid o Ysgol David Hughes, Porthaethwy sydd wedi ennill gwobr 'Myfyriwr Cymraeg y Flwyddyn' gydag Academi Chwaraeon Sky;
- Llongyfarchiadau i Cerys Davies a Harri Evans o Ysgol David Hughes, Porthaethwy sydd wedi cael eu dewis yn aelodau o Grŵp Llywio Cenedlaethol Llysgenhadon Ifanc Cymru;
- Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Ann Griffith sydd wedi ei hapwyntio'n Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd;
- Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd John Griffith sydd wedi priodi'n ddiweddar;
- Cynhelir agoriad swyddogol derbynfa newydd 'Cyswllt Môn' ar Hydref 7fed, 2016.

Roedd Dirprwy Arweinydd y Cyngor yn dymuno estyn ei gydymdeimlad â Chadeirydd y Cyngor Sir, Arweinydd y Cyngor a'u teuluoedd sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar. Roedd yr holl Aelodau a Swyddogion hefyd yn dymuno estyn eu cydymdeimlad â'r Cadeirydd ac Arweinydd y Cyngor.

Ymhellach, roedd Dirprwy Arweinydd y Cyngor yn dymuno estyn neges o gydymdeimlad i unrhyw Aelod neu aelod o staff y Cyngor sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Safodd yr Aelodau a Swyddogion mewn tawelwch fel arwydd o gydymdeimlad a pharch.

## 4. CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD YN UNOL Â RHEOL 4.1.12.4 Y CYFANSODDIAD

Ni dderbyniwyd unrhyw gwestiynau yn unol â Rheol 4.1.12.4 y Cyfansoddiad.

5. **CYFLWYNO DEISEBAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

6. **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL**

Adroddwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd – bod angen i'r Cyngor adolygu trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar ei Bwyllgorau yn dilyn derbyn gwybodaeth bod un Aelod wedi ymddiswyddo o'r Grŵp Annibynnol. Yn unol â phrotocolau rheolaeth wleidyddol trafodwyd y trefniadau rheolaeth wleidyddol diwygiedig gydag Arweinwyr y Grwpiau.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddi a ddyrennir i bob un o'r Grwpiau dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a nifer y seddi a roddir yn ôl arfer a thraddodiad i'r Aelodau nad yw cydbwysedd gwleidyddol yn berthnasol iddynt a hynny'n ôl yr wybodaeth yn y matrics;**
- **Yn unol â'r argymhelliad uchod, bod y Cyngor yn dirprwyo i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad ag Arweinwyr y Grwpiau, yr hawl i benderfynu faint o seddi a ddyrennir i Aelodau Digyswllt yn codi o'r newidiadau hyn a rhoi gwybod am hynny i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;**
- **Bod yr Arweinydd yn hysbysu'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ynghylch aelodaeth y Grŵp Annibynnol ar Bwyllgorau amrywiol yn sgil y newidiadau.**

7. **ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2015/16**

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf, 2016 a'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Medi, 2016.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Nodi'r ffigyrau alldro sydd yn yr adroddiad;**
- **Nodi'r dangosyddion darbodus a thrysorlys 2015/16 dros dro.**

8. **DATGANIAD CYFRIFON 2015/16 AC ADRODDIAD ISA 260**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y cafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant ar 21 Medi, 2016.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Derbyn Datganiad Cyfrifon 2015/16;**

DRAFFT

- **Nodi bod y Pwyllgor Archwilio wedi derbyn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ac wedi ei gyfeirio at sylw Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr er mwyn iddynt ei lofnodi.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR STATUDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) fel Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

Adroddodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) a Chyfarwyddwr dynodedig y Gwasanaethau Cymdeithasol fod yr adroddiad blynyddol yn adolygu effeithiolrwydd y gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y flwyddyn o ran ymateb i heriau a hefyd yn diffinio'r amcanion ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r adroddiad yn edrych yn ôl ac yn cloriannu pa mor dda mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymateb i'r meysydd gwella a gafodd eu hadnabod gan AGGCC yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol am 2014/15. Y meysydd a gafodd eu hadnabod yn yr adroddiad oedd y Gwasanaethau Plant lle'r oedd AGGCC wedi nodi bod y gwelliannau'n parhau i fod yn fregus. Mae nifer y plant mewn gofal wedi cynyddu'n sylweddol ac mae nifer y plant ar y gofrestr wedi cynyddu hefyd. Mae recriwtio a chadw staff profiadol wedi bod yn broblem o fewn y gwasanaeth ond mae'r sefyllfa wedi gwella erbyn hyn ac mae nifer o staff profiadol a staff newydd gymhwyso wedi ymuno â'r tîm yn ddiweddar ond mae angen rhoi digon o amser iddynt sefydlu eu hunain o fewn eu rolau gyda'r Gwasanaethau Plant.

Nododd ymhellach fod blaenoriaeth wedi cael ei rhoi i'r Gwasanaethau Plant a bod Panel o aelodau etholedig wedi'i sefydlu i fonitro gweithrediad Cynllun Gwella'r Gwasanaethau Plant ac i wella dealltwriaeth am Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Buddsoddwyd yn sylweddol yn y Gwasanaethau Plant i sicrhau fod gwasanaethau statudol yn cael eu cyflenwi ac i gydymffurfio â gofynion statudol. Mae AGGCC wedi cyhoeddi y bydd y Gwasanaethau Plant yn cael eu harolygu yn ystod yr Hydref a bydd hyn yn rhoi cyfle i arfarnu'r gwelliannau a wnaethpwyd o fewn y gwasanaeth ac adnabod faint rhagor o waith sydd angen ei wneud.

Roedd y Prif Weithredwr Cynorthwyol yn falch bod gwaith wedi dechrau ar ddatblygu cyfleuster Gofal Ychwanegol yn Llangefni.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2015/16 Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol.**

## 10. STRATEGAETH IAITH GYMRAEG

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Gwella Partneriaethau, Cymunedau a Gwasanaethau) mewn perthynas â Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-21.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Strategaeth Iaith Gymraeg 2016-21.**

DRAFT

**11. ADOLYGIAD O BOLISI GAMBLO'R AWDURDOD**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas ag adolygiad o Bolisi Gamblo'r Awdurdod.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Polisi Gamblo diwygiedig.**

**12. STRWYTHUR STAFFIO UWCH SWYDDOGION**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol mewn perthynas â strwythur staffio diwygiedig ar gyfer y Penaethiaid Gwasanaeth

**PENDERFYNWYD derbyn strwythur staffio diwygiedig y Penaethiaid Gwasanaeth a chymeradwyo gwneud i ffwrdd â chyfeiriadau yng Nghyfansoddiad y Cyngor at swydd y Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd).**

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 pm

**Y CYNGHORYDD BOB PARRY OBE FRAgS**
**CADEIRYDD**

DRAFT